

## Croeso i'n pedwerydd cylchlythyr

**M**ae ardaloedd Crindau a Shaftesbury yng Nghasnewydd mewn perygl mawr o ddiodef llifogydd llanwol gydag oddeutu 650 o adeiladau mewn perygl. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu cynllun rheoli perygl llifogydd er mwyn lleihau'r perygl llifogydd yn sgil Crindau Pill.

### Gwaith wedi'i gwblhau

Mae'r gwaith o osod dalennau dur (darnau cydgloëdig o ddr sy'n ffurfio wal hir) wedi'i gwblhau.

Mae'r holl ryng-gipwyr petrol wedi'u gosod ac yn olaf mae'r holl wasanaethau wedi'u

hailosod ynnhroedffordd Pont Heol Lyne. Mae hen waliau canllaw (ochr) y bont wedi'u dymchwel a'u hailadeiladu er mwyn eu cryfhau. Hefyd, maent yn cael eu gorchuddio â charreg Pennant o ffynhonnell leol.



### Gwaith ar y gweill

Mae mwy na 60% o'r gwaith o osod y trawst concret a roddir ar ben y wal dalennau dur wedi'i gwblhau. Er mwyn adeiladu'r trawst hwn bu'n rhaid gwneud llawer iawn o waith dros dro. Rhaid oedd adeiladu llwyfan gweithio er mwyn i'r gweithwyr allu gweithio'n ddiogel i adeiladu fframwaith ar gyfer y trawst. Dyma broses sy'n cymryd llawer iawn o amser.







## Parc Shaftesbury

Gwneir cynnydd da o ran adeiladu'r clawdd llifogydd drwy'r parc. Mae prif ran y clawdd wedi'i gwblhau a bydd y gwaith o osod uwchbridd a hau hadau'n cael ei wneud cyn bo hir. Gwelir cynnydd hefyd o ran y llwybrau troed a'r teras eistedd yn y llun.

Ar adegau bu'n rhaid inni gau'r parc er eich diogelwch. Ymddiheurwn am yn anghyfleustra a diolch am eich amynedd.

## Cyngor Dinas Casnewydd – gwelliannau i lwybrau beicio

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwella llwybrau beicio yn yr ardal. Alun Griffiths yw'r contractwr sy'n gwneud y gwaith hwn. Rydym wedi cytuno gyda'r Cyngor y bydd ein contractwr ni (Galliford Try) yn ymgymryd â'r gwaith ar y Bont gan ein bod eisoes yn gweithio yn y fan hon. Yn anffodus, golyga hyn y bydd y ffordd ar gau tan 17eg Tachwedd 2017.

## Gwaith yn y dyfodol

Er mwyn amddiffyn pibellau dŵr daear a phibellau carthffosydd Dŵr Cymru rhaid inni osod pyst dur tiwbaidd wrth ymyl y pibellau. Byddwn yn cychwyn ar y gwaith ar 23ain Hydref 2017.

Ymhellach, byddwn yn dechrau adeiladu'r mur llifogydd ger Heol Malpas.

Rydym wedi dechrau gwneud rhywfaint o waith tirlunio ym Mharc Shaftesbury a chyn bo hir ein gobaith yw gallu dechrau plannu coed.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Mae'r tîm adeiladu wedi rhoi eu hoffer gwaith i'r naill ochr ambell fore er mwyn eu galluogi i gasglu sbwriel yn y cyffiniau a gwneud gwaith clirio cyffredinol. Rydym yn casglu ac yn cael gwared â chwistrellau hypodermig yn rheolaidd o amryw leoliadau o amgylch terfyn y safle gwaith.

Rydym yn parhau i fonitro sŵn a dirgryniadau ar y safle ac mae ffensys pren a blancedi acwstig dros dro wedi'u codi er mwyn lleihau sŵn y gwaith.

Ar 2il Tachwedd bydd grŵp o sgowtiaid yn ymweld â'r safle i ddysgu am agweddau'n ymwneud â llifogydd ac adeiladu.



Cysylltwch â Melissa Mahavar-Snow os hoffech drafod unrhyw ymhellach 07468 742549.